

# Strategaeth Gyfathrebu

## Y Neges lawn i'r Gynulleidfa lawn

Elin Angharad Williams  
Rheolwr Cyfathrebu

Medi 2014



Coleg  
Cymraeg  
Cenedlaethol

**CYNNWYS:**

<b>1. PRIF AMCANION .....</b>	<b>3</b>
<b>2. PRIF AMCAN A – .....</b>	<b>5</b>
<b>Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith darpar fyfyrwyr, rhieni ac athrawon am fanteision addysg uwch cyfrwng Cymraeg a'r ddarpariaeth sydd ar gael</b>	
<b>3. PRIF AMCAN B - .....</b>	<b>13</b>
<b>Codi ymwybyddiaeth o frand a gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol</b>	
<b>4. PRIF AMCAN C - .....</b>	<b>17</b>
<b>Gwella cyfathrebu gyda staff a myfyrwyr yn y sefydliadau</b>	

## PRIF AMCANION

Bydd y Strategaeth Gyfathrebu hon yn rhoi sail i holl waith marchnata a chyfathrebu'r Coleg hyd at ddiwedd blwyddyn 2016/7. Ei phrif nod fydd sicrhau proffil uchel i bob agwedd o waith y Coleg ymysg ei randdeiliaid – o'r gwaith recriwtio ac ysgoloriaethau i'r prosiectau yr ariennir a'r cynllun staffio, ynghyd a chodi ymwybyddiaeth darpar fyfyrwyr a'u rhieni i'r cyfleoedd astudio addysg uwch cyfrwng Cymraeg.

Er mwyn sicrhau llwyddiant unrhyw strategaeth gyfathrebu, mae'n rhaid i'r fframwaith gyfathrebu a dulliau cyfathrebu'r Coleg fod yn gadarn ac wedi eu seilio ar werthoedd, cenhadaeth a phrif amcanion y Coleg.

Mae'n hanfodol bwysig bod y Coleg yn parhau i gyfathrebu yn agored gydag ystod eang o gynulleidfaoedd – gweler **Atodiad 1** am ddiagram yn amlinellu pob un o gynulleidfaoedd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

### **Beth mae'r gynulleidfa am ei glywed?**

Mae angen i'r Coleg ddylanwadu ar agweddau ein cynulleidfa darged er mwyn eu helpu i sylweddoli budd addysg uwch cyfrwng Cymraeg a chwalu'r ofnau sydd ganddynt amdani.

Mae'r strategaeth newydd hon yn canolbwyntio ar negeseuon sydd wedi eu hanelu yn fwy penodol aty gwahanol grwpiau targed fel bod popeth yn berthnasol i'r sawl sydd yn derbyn y neges.

Rhaid meddwl am beth mae'r gynulleidfa **eisiau** ei glywed, beth maent yn ei feddwl a sut y gallwn gyfleu ein negeseuon ni iddynt mewn modd uniongyrchol ond perthnasol.

Felly, prif amcanion y strategaeth hon bydd:

A Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith darpar fyfyrwyr, rhieni ac athrawon am fanteision addysg uwch cyfrwng Cymraeg a'r ddarpariaeth sydd ar gael

B Codi ymwybyddiaeth o frand a gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

C Gwella cyfathrebu gyda staff a myfyrwyr yn y sefydliadau

Trwy hyn oll, y prif fwriad yw i gefnogi prif amcanion a strategaeth ganolog y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

**PRIF AMCAN A:**

**CODI YMWYBYDDIAETH A DEALLTWRIAETH YMHLITH DARPAR FYFYRWYR, RHIENI AC ATHRAWON AM FANTEISION ADDYSG UWCH CYFRWNG CYMRAEG A'R DDARPARIAETH SYDD AR GAEL**

Mae dealltwriaeth darpar fyfyrwyr o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn amrywio o ardal i ardal ac mae'n ddibynol ar gymaint o wahanol ffactorau fel ardal, gwybodaeth athrawon, brawd neu chwaer yn hyn ac yn y blaen.

Er mwyn cynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n dewis astudio eu cwrs neu ran o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol, mae'n hanfodol i ni godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y garfan yma.

Mae'n hanfodol bwysig i ni felly i dargedu yn benodol o fewn y sector yma – rhaid ystyried pa ddarpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddisgyblion cyn rhoi adnoddau i mewn i'w targedu er enghraifft.

Cyfnod Peilot:

Yn unol ag argymhellion ymchwil ansoddol a gomisiynwyd gan y Coleg yn 2013 er mwyn ein hysbysu wrth gynllunio ymgyrch recriwtio, bydd swyddogion y Coleg yn cydweithio gyda chorff/cyrff allanol er mwyn cynnal ymgyrch ddwys mewn tair ardal yn ystod 2014/15 a 2015/6, sef Gwynedd, Sir Gaerfyrddin a Rhondda Cynon Taf. Bydd y cyfnod yn cael ei drin fel cyfnod peilot er mwyn canfod y dulliau mwyaf effeithiol o weithredu i recriwtio myfyrwyr.

Prif ffocws y gwaith peilot bydd:

- Myfyrwyr rhwng 16-18 oed sydd yn astudio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a Cholegau Addysg Bellach yng Nghymru
- Disgyblion ym mlwyddyn 9, 10 ac 11 yn yr ysgolion Cymraeg a dwyieithog
- Disgyblion blwyddyn 9, 10 ac 11 mewn ysgolion eraill lle mae darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg ar gael
- Rhieni: Gan fod rhieni yn dod o bob math o gefndiroedd, a'u bod yn anodd eu cyrraedd trwy dulliau traddodiadol megis taflenni, byddwn yn treialu dulliau o ymgysylltu gyda nhw mewn ffyrdd mwy uniongyrchol e.e. presenoldeb mewn nosweithiau rhieni, nosweithiau gwobrwyo a digwyddiadau ysgol eraill.

- Penaethiaid Blwyddyn 12 a 13 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog
- Athrawon pwnc mewn ysgolion Cymraeg, dwyieithog ac ysgolion eraill
- Cynghorwyr Gyrfa lleol
- Hyrwyddo trwy gyfrwng mudiadau megis yr Urdd a Ffermwyr Ifainc ac ati.
- Dulliau eraill yn ddibynnol ar y cyd-destun lleol

### Adeiladu ar waith presennol

Bydd y peilot a ddigrifir uchod yn digwydd law yn llaw gyda'r gwaith recriwtio sydd eisoes yn digwydd ar draws Cymru, sef targedu:

- Myfyrwyr rhwng 16-18 oed sydd yn astudio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a Cholegau Addysg Bellach yng Nghymru
- Rhieni, trwy gyfrwng deunydd hyrwyddo
- Penaethiaid Blwyddyn 12 a 13 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog
- Sesiynau gwybodaeth a deunydd i gynghorwyr gyrfa yn genedlaethol
- Athrawon pwnc mewn ysgolion Cymraeg a dwyieithog
- Hyrwyddo trwy gyfrwng mudiadau megis yr Urdd a Ffermwyr Ifainc ac ati.

Wrth lunio neges i ddarpar fyfyrwyr a rhieni, byddwn yn gofyn y cwestiwn "A yw hyn yn berthnasol iddyn nhw?"

Wrth feddwl am helpu eu plant i ddewis opsiynau addysg uwch, fe fydd rhiant yn meddwl am:

- Gost yr addysg;
- Ansawdd yr addysg
- Pa swydd fydd eu mab/merch yn ei chael wedi iddo/iddi dderbyn yr addysg hynny.

Beth sydd bwysicaf iddynt yw pa fudd fydd i'w mab/merch nhw i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg – a dyna'r brif neges sydd angen ei gyfathrebu iddynt.

Wrth gyfathrebu gyda'r gynulleidfa darged, *strapline* y Coleg bydd:

'Dy Ddyfodol, Dy Iaith – Dy Ddewis Di'.

CYNLLUN GWEITHREDU:

**a) Cynllun Peilot**

Byddwn yn paratoi manyleb erbyn diwedd Hydref 2014 gyda'r bwriad o wahodd corff neu gyrff allanol i gynnig am y gwaith o weithredu cynllun peilot mewn tair ardal ddaearyddol yn ystod 2014/15 a 2015/16, sef Gwynedd, Sir Gaerfyrddin a Rhondda Cynon Taf. Bydd y gwaith yn cynnwys defnyddio ystod o dulliau er mwyn targedu yr ardaloedd hyn yn ddwys, a chanfod y dulliau mwyaf effeithiol o ymgysylltu gyda disgyblion blwyddyn 9-11, myfyrwyr blwyddyn 12 a 13, rhieni, athrawon a chynghorwyr gyrfa, er mwyn recriwtio myfyrwyr i ddilyn cyrsiau addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg. BYddwn hefyd yn treialu gwaith codi ymwybyddiaeth I ddisgyblion blwyddyn 6 yn yr ysgolion cynradd, a blwyddyn 7 ac 8 yr ysgolion uwchradd, a'u rhieni ac athrawon.

Bydd hyblygrwydd hefyd i greu cynlluniau hyrwyddo sydd yn addas l'r ardal ddaearyddol benodol.

**b) Parhau gydag ymweliadau ysgolion a cholegau addysg bellach 2014/15 a 2015/16.**

Mae'r adborth a gesglir ar y ffurflenni adborth o ddisgyblion sy'n cael cyflwyniadau'r Coleg yn yr ysgolion a'r colegau yn hynod bositif, felly fe ddylid parhau gyda'r arfer yma fel dull o gyfathrebu gyda myfyrwyr blwyddyn 12 a 13.

- Mae'r cyflwyniadau yn digwydd yn ystod tymor yr Hydref a'r Haf ac mae gennym darged o ymweld ag o leiaf 60 o ysgolion a cholegau yn flynyddol.
- Yn dilyn derbyn adborth, fe fyddwn yn datblygu'r cyflwyniadau PREZI i gynnwys mwy o glipiau fideo, a mwy o fanteision a chyflogadwyedd astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Byddwn yn datblygu cyflwyniad addas ar gyfer myfyrwyr ail iaith
- Byddwn yn datblygu cyflwyniad dwyieithog i'w ddefnyddio i farchnata gyda rhieni.

**c) System Aelodaeth**

I gyd fynd gyda'r ymweliadau ysgolion, byddwn yn hyrwyddo aelodaeth o'r Coleg er mwyn sicrhau bod bas data mwy cynhwysfawr yn cael ei ddatblygu fel fod modd cysylltu gyda'r myfyrwyr yn gyson i ledaenu

## **Strategaeth Gyfathrebu**

gwybodaeth berthnasol am gyfleoedd astudio addysg uwch a'r ysgoloriaethau ac yn y blaen.

Er mwyn datblygu hyn ymhellach, byddwn yn datblygu is-gategori aelodaeth i rieni ac i athrawon pwnc fel fod modd targedu negeseuon penodol i'r gynulleidfa darged, o fewn y prif gategori 'Cyfaill'.

### **ch) Llysgenhadon Cyfathrebu**

I gydfynd gyda'r ymweliadau ysgolion a cholegau, byddwn yn mynd ati i recriwtio nifer o fyfyrwyr presennol y Coleg i fod yn llysgenhadon cyfathrebu.

Bydd y llysgenhadon yn cael eu talu am eu gwaith a fydd yn cynnwys ambell i ymweliad ysgol gyda'r adran gyfathrebu, mynychu ffeiriau UCAS a digwyddiadau eraill fel Eisteddfod yr Urdd, y Genedlaethol ac yn y blaen.

Wrth fynd â myfyrwyr presennol gyda ni i ysgolion fe fydd y darpar fyfyrwyr yn gallu uniaethu â nhw a bydd yn rhoi darlun mwy clir iddynt o fywyd yn y brifysgol. Ni fydd yn bosibl i fyfyrwr ddod gyda ni i bob ysgol ond wrth recriwtio amrywiaeth eang o fyfyrwyr i'r cynllun fe fydd mwy o siawns fod yna unigolion ar gael.

Bydd hyfforddiant llawn yn cael ei gynnig i'r myfyrwyr ac wrth recriwtio myfyrwyr i'r cynllun fe fydd gofyn i ni bwysleisio sut y bydd cymryd rhan mewn cynllun o'r fath yn edrych yn dda ar eu CV ac yn help iddynt maes o law pan fyddant yn edrych am swyddi.

Gellid datblygu'r cynllun ymhellach wrth gael rhai o'r myfyrwyr i drydar a/neu flogio am waith y Coleg a bywyd yn y brifysgol.

Byddwn yn dechrau'r cynllun trwy dargedu myfyrwyr mewn nifer cyfyngedig o brifysgolion ac yn symud ymlaen wedi i ni gael cyfnod arbrofol yn ystod 2014/5.

### **d) Mynychu ffeiriau UCAS**

Mae ffeiriau UCAS yn ddigwyddiadau pwysig i ddisgyblion blwyddyn 12 ac mae'n angenrheidiol i ni fod yn bresennol. Byddwn yn parhau i

fynychu ffeiriau Caerdydd, Caerfyrddin, Wrecsam a Bangor ac o 2014 ymlaen yr ydym hefyd yn mynychu ffair UCAS Lerpwl gan fod cymaint o ysgolion y Gogledd yn dueddol o fynd yno yn hytrach nag i ffair Wrecsam.



Yn y ffeiriau hyn, byddwn yn cynnal seminar gwybodaeth ac ar gyfer 2014/15 fe fyddwn yn ail edrych ar gynnwys hwn er mwyn ei wneud yn fwy perthnasol.

**dd) Prosbectws a chwilydd cyrsiau**

Byddwn yn parhau i gynhyrchu prosbectws israddedig cynhwysfawr.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo chwilydd cyrsiau y Coleg sydd â chyswllt uniongyrchol technegol gyda gwefan UNISTats, er mwyn cael y wybodaeth mwyaf cyfredol am y cyrsiau a gynigir yn y sefydliadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

I gyd fynd gyda'r prosbectws a'r chwilydd cyrsiau, rydym wedi datblygu 'ap' sydd yn gwasanaethu fel chwilydd cyrsiau i ddarpar fyfyrwyr yn ogystal â darparu gwybodaeth am yr ysgoloriaethau. Ein bwriad gyda hyn yw annog darpar fyfyrwyr a'u rhieni i lawrlwytho'r ap er mwyn iddynt gael gwybodaeth ar flaenau eu bysedd am gyrsiau cyfrwng Cymraeg a'r ddarpariaeth yn y prifysgolion.

**e) Gwybodaeth ar gyfer cysylltiadau yn yr ysgolion e.e.penaethiaid Blwyddyn 12 a 13**

Yn dilyn adborth gan athrawon, fe fyddwn yn mynd ati i greu pecyn gwybodaeth cynhwysfawr i bob pennaeth blwyddyn 12 a 13 mewn ysgolion Cymraeg a dwyieithog.

Bydd y pecyn yn cynnwys gwybodaeth am fanteision addysg uwch cyfrwng Cymraeg, rhestr o bynciau lle gellid astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, taflenni gwybodaeth amrywiol (ysgoloriaethau ac yn y blaen) yn ogystal â chyflwyniad Pwynt Pŵer/PREZI ar ddisg er mwyn iddynt ei ddefnyddio mewn amrywiol ffyrdd.

**f) Nosweithiau gwobrwyo**

Byddwn yn sicrhau cyn belled a phosib bod pob ysgol perthnasol yn rhoi sylw i'r disgyblion hynny a enillodd ysgoloriaeth, er mwyn codi ymwybyddiaeth am yr ysgoloriaethau, am addysg uwch cyfrwng Cymraeg, ac am y Coleg.

**ff) Targedu swyddogion gyrfa**

Mae angen mawr i wella dealltwriaeth swyddogion gyrfaedd o fanteision astudio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg uwch.

## **Strategaeth Gyfathrebu**

Bwriadir mynd ati i greu pecyn gwybodaeth (tebyg i'r un i benaethiaid blwyddyn 12) dwyieithog iddynt.

Byddwn hefyd yn cysylltu â swyddogion gyrfa ledled Cymru i gasglu eu barn am y posibilrwydd o gynnal sesiwn wybodaeth iddynt yn ddwyieithog am waith y Coleg a'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr.

### **g) Gwneud mwy o ddefnydd o ddeunyddiau amlgyfrwng**

Gwneir defnydd o glipiau fideo o fyfyrwyr cyfredol y Coleg mewn amrywiol gyflwyniadau eisoes, ond fe ellid gwneud gwell defnydd ohonynt i dargedu darpar fyfyrwyr gan eu bod yn ymateb yn dda i ffilmiau byr.

Mae'r gwaith o recordio clipiau fideo newydd o'r myfyrwyr cyfredol yn mynd yn ei flaen, ond yn ogystal â hyn byddwn yn mynd ati i gasglu clipiau perthnasol o ddeiliaid cynllun staffio'r Coleg er mwyn rhoi blas o'r math o beth y gall darpar fyfyrwyr ei ddisgwyl yn y brifysgol.

Byddwn hefyd yn mynd ati i gasglu barn cyflogwyr am y manteision o astudio pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn hyrwyddo mwy ar gyflogadwyedd.

Byddwn yn defnyddio'r clipiau hyn yn y cyflwyniadau ysgolion a UCAS a hefyd byddwn yn sicrhau fod mwy o ddefnydd yn cael eu gwneud ohonynt mewn digwyddiadau fel cynhadleddau, ffeiriau ac eisteddfodau.

### **ng) Diwrnodau / Sesiynau gwybodaeth**

Ar y cyd â swyddogion pwnc a/neu ddarlithwyr y Coleg, byddwn yn trefnu diwrnodau gwybodaeth perthnasol i wahanol bynciau. Byddai'r

sesiynau hyn yn cael eu cynnal naill ai yn un o'r prifysgolion neu mewn lle arall perthnasol. Bwriad y sesiynau fydd i roi blas ar fywyd prifysgol i ddarpar fyfyrwyr blwyddyn 12. Bydd y sesiynau hyn yn fodd i wella perthynas gydag athrawon pwnc yn yr ysgolion yn ogystal â modd arall i gyfathrebu gyda darpar fyfyrwyr.

### **h) Hysbysebion**

## **Strategaeth Gyfathrebu**

Bwriedir mynd ati i greu cynllun ar gyfer hysbysebion fydd wedi ei deilwra yn ofalus ar gyfer gwahanol adegau o'r flwyddyn i gyd fynd â gwahanol ddigwyddiadau perthnasol. Byddwn yn defnyddio ystod eang o wahanol gyfryngau – o bapurau newydd a chylchgronnau cenedlaethol i deledu, radio, bapurau bro, gwefannau a gwefannau cymdeithasol – gan deilwra'r neges i ba bynnag gynulleidfa darged, er enghraifft fe ellid defnyddio gwefannau cerddoriaeth fel Spotify, Bebo,

Joga a Lush Forums i dargedu darpar fyfyrwyr a'r Daily Post a phapurau newydd tebyg i dargedu rheini.

### **i) Creu deunydd cyfathrebu newydd**

Byddwn yn creu amrywiol daflenni a nwyddau cyfathrebu newydd a fydd yn canolbwyntio ar fanteision addysg uwch cyfrwng Cymraeg, cyflogadwyedd, ysgoloriaethau ac yn y blaen.

Wrth ddatblygu deunydd hyrwyddo i ddarpar fyfyrwyr rhaid ystyried yn ofalus y pethau sydd o ddiddordeb iddynt: er enghraifft cerddoriaeth, ffasiwn, chwaraeon, gemau, y we a tecstio – a meddwl am ffyrdd newydd a dyfeisgar o allu cynnwys y diddordebau hyn i fewn i negeseuon y Coleg, heb fod yn rhy amlwg.

Bwriadwn greu cylchgrawn dwyieithog, ddwy waith y flwyddyn a'i alw yn rywbeth fel "Y Myfyriwr / The Student". Bydd y cylchgrawn yn cael ei ddosbarthu i bob ysgol Gymraeg a dwyieithog, Colegau Addysg Bellach ynghyd â chael ei anfon at bob rhiant sydd ar ein bas data ni. Bwriad y cylchgrawn fydd i roi blas i ddarpar fyfyrwyr o beth allant ei ddisgwyl mewn prifysgol, beth yw'r dewisiadau sydd ar gael iddynt, amlinelliad o'r broses ymgeisio, ysgoloriaethau a gwybodaeth ddefnyddiol i rieni. Bwriadwn ddatblygu'r cylchgrawn wedi cwblhau peth gwaith ymchwil gyda grwpiau ffocws o ddarpar fyfyrwyr a rhieni.

Bwriadwn hefyd greu blog neu flogiau wedi eu hanelu at ddarpar fyfyrwyr yn sôn am fywyd prifysgol, wedi ei ysgrifennu gan fyfyrwr/myfyrwyr.

### **l) Cydweithio gyda chyflogwyr**

Ar hyn o bryd, mae'r Coleg yn cydweithio gyda chyflogwyr trwy'r cynllun ysgoloriaethau er mwyn trefnu 10 diwrnod o brofiad gwaith i bob myfyriwr sy'n derbyn ysgoloriaeth i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyflogaeth wedi iddynt orffen eu hastudiaethau mor

### **Strategaeth Gyfathrebu**

bwysig i rieni a myfyrwyr ac mae angen gwneud defnydd da o'n cysylltiadau gyda chyflogwyr i hyrwyddo'r ffaith bod cyflogwyr yn rhoi gwerth mawr ar sgiliau dwyieithog da yn y gweithle.

Byddwn yn cydweithio gyda Swyddogion Lleoliadau Gwaith y Coleg er mwyn defnyddio cyflogwyr a chyflogaeth fel rhan o farchnata buddiannau addysg uwch cyfrwng Cymraeg i ddarpar fyfyrwyr a'u rhieni. Gall hyn olygu creu amrywiol fideos byr gyda chyflogwyr yn amlinellu'r manteision o fod yn ddwyieithog, ymysg dulliau eraill.

Wrth i fyfyrwyr sydd wedi bod trwy'r Coleg fynd allan i fyd gwaith, bydd modd eu defnyddio hwy hefyd i gyfleu negeseuon marchnata am fanteision addysg uwch cyfrwng Cymraeg a bod yn aelodau o'r Coleg. Bydd modd hefyd dilyn trywydd myfyrwyr sydd wedi bod trwy addysg uwch cyfrwng Cymraeg fel aelodau o'r Coleg, rhai ohonynt wed cwblhau Tystysgrif Sgiliau Iaith, fel bod modd gweld pa rai sydd wedi llwyddo i gael gwaith perthnasol, a chyfleu'r wybodaeth yn ôl i'r cynulleidfaoedd targed trwy'r dulliau marchnata a ddirifir uchod.

**PRIF AMCAN B:**

**CODI YMWYBYDDIAETH O FRAND A GWAITH Y COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL**

Brand yw Y peth pwysicaf sydd gennym ni. Mae sut mae pobl yn gweld ein brand ni yn hynod bwysig ac yn gallu effeithio ar gymaint o wahanol bethau.

Wrth sôn am frand, golygir mwy na dim ond y logo a'r lliwiau corfforaethol. Mae'r logo a'r lliwiau corfforaethol yn bwysig ond mae enw da y brand yn llawer pwysicach.

Mae yna angen mawr i godi ymwybyddiaeth am waith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ymysg ystod eang o bobl – o wleidyddion i brifysgolion, o ddarpar fyfyrwyr, rhieni a myfyrwyr presennol.

Trwy'r cynllun gweithredu isod, ein bwriad yw codi ymwybyddiaeth y gwahanol gynulleidfaoedd am addysg uwch cyfrwng Cymraeg ac am y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae lefel diddordeb a phŵer ein cynulleidfaoedd ni i ddylanwadu yn amrywio, ond wrth gyfathrebu yn glir, yn uniongyrchol ac yn gyson gyda nhw, gallwn newid eu hagweddau tuag atom fel ein bod yn datblygu i fod yn ffynhonnell wybodaeth dda a dibynadwy iddynt ar faterion addysg uwch cyfrwng Cymraeg.

**CYNLLUN GWEITHREDU**

**a) Y Wasg a'r cyfryngau**

- datblygu dyddiadur digwyddiadau i ni yn fewnol er mwyn gallu cynllunio gweithgaredd y Wasg a'r cyfryngau – bod yn rhagweithiol yn hytrach nag yn adweithiol yn unig;
- creu rhestr gynhwysfawr o gysylltiadau gyda'r Wasg a'r cyfryngau yn lleol ac yn genedlaethol;
- datblygu perthynas dda gyda newyddiadurwyr blaenllaw;
- datblygu rhestr o 'arbenigwyr' ymysg staff canolog a darlithwyr y Coleg er mwyn gallu galw arnynt i siarad / roi dyfyniad am storiau perthnasol;
- Cydweithio gyda chwmni monitro'r wasg a'r cyfryngau er mwyn cadw golwg manwl ar beth sy'n cael ei ddweud am y Coleg a'r sector.

- Cydweithio gyda'r cynllun datblygu staff i gynnal sesiwn o hyfforddiant i ddeiliaid y cynllun staffio ar gyfweiliadau gyda'r wasg a beth sy'n gwneud stori dda.

## **b) Gwefan**

Ers i'r tîm cyfathrebu newid personél (Gorffennaf – Medi 2013), maent wedi bod yn adolygu gwefan bresennol y Coleg er mwyn penderfynu pa mor effeithiol ydyw fel arf marchnata a chyfathrebu.

Yn dilyn adolygiad a hefyd nifer o sylwadau gan ddarpar fyfyrwyr yn yr ysgolion, mae'r angen wedi codi i ail wampio peth ar wefan y Coleg er mwyn ei wneud yn fwy cyfoes a perthnasol i ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr.

Er bod diwyg cyffredinol y wefan yn ddigon pleserus, y teimlad cyffredinol yw ei fod yn rhy gorfforaethol ei naws ac nid yw o reidrwydd wedi ei ddylunio na'i gynllunio i ddenu myfyrwyr.

Yn yr oes sydd ohoni, mae'n rhaid i wefan y Coleg fod yn wirioneddol berthnasol a chyfoes i'r gynulleidfa darged, gan wneud defnydd pellach o fideo i drosglwyddo negeseuon mewn modd cryno ac apelgar.

Nid yw hynny yn golygu hepgor y manylion corfforaethol eu naws – ond yn hytrach ail edrych ar holl strwythur y wefan gan sicrhau fod y manylion sydd angen ar ddarpar fyfyrwyr ar gael yn rhwydd iddynt, yn hytrach na'u bod yn gorfod tyrchu amdano ar y wefan.

Bwriadwn ddatblygu tudalennau gwybodaeth i rieni ar y wefan yn ogystal â datblygu tudalennau pynciol ar gyfer yr holl bynciau sy'n cael eu cynnwys fel rhan o'r prospectws, a sicrhau fod y chwilotydd cyrsiau ar gael ar y dudalen flaen.

Byddai modd hefyd cynnwys llyfrgell o adnoddau'r Coleg sy'n cyfeirio defnyddwyr at allbwn electronig y Coleg o fewn y Porth, gan gynnwys y llyfrgell ddigidol.

Y mae diweddarau'r wybodaeth sydd ar y wefan yr un mor bwysig a diwyg y wefan, ac i'r perwyl hyn, bwriedir roi cyfrifoldeb i swyddogion a enwir i ddiweddarau adrannau penodol o'r wefan yn gyson.

Bwriedir sicrhau bod y Wefan ar ei newydd wedd yn fyw ac wedi ei boblogi erbyn diwedd 2014.

**c) Parhau i fynychu gwyliau fel Eisteddfod yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol a Tafwyl**

Byddwn yn parhau i gael presenoldeb amlwg yn y ddwy brif Eisteddfod gan sicrhau bod yr adloniant / digwyddiadau yn berthnasol i'r gynulleidfa darged.

Bwriadwn barhau i adolygu ein trefniadau ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol yn flynyddol er mwyn sicrhau bod ein stondin yn parhau yn agored a chroesawgar a sicrhau gwerth am arian.

Byddwn yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio trelar FBA mewn dau neu dri o wyliau eraill tebyg i Tafwyl.

**ch) Cydweithio gyda mudiadau ieuenctid fel yr Urdd, Mudiad Ffermwyr Ifanc a Mentrau Iaith Cymru**

Mae'r mudiadau yma yn cynnal lluo o ddigwyddiadau ar hyd y flwyddyn sydd yn cynnig cyfle i'r Coleg i gydweithio gyda nhw er mwyn ymledu rhai o negeseuon y Coleg er mwyn codi ymwybyddiaeth a recriwtio.

Mae trafodaethau wedi dechrau gyda'r Urdd i edrych ar y posibiladau o noddi rhai o'i digwyddiadau nhw a bwriedir gwneud yr un peth gyda CFfl yn ystod 2014-15.

**d) Gwella presenoldeb ar wefannau cymdeithasol**

Er bod tudalennau a chyfrif gyda'r Coleg ar nifer o wefannau cymdeithasol megis Facebook, Twitter, YouTube ac yn y blaen, dylid gwneud gwell defnydd ohonynt i gyfathrebu. Mae yna gynllun gweithredol i'r cyfryngau digidol yn cael ei ddatblygu ar wahan, gyda'r prif ffocws ar gynyddu'r nifer o bobl sy'n ein dilyn ac yn cyfathrebu gyda ni ar wefannau cymdeithasol yn ogystal a sicrhau ein bod yn siarad gyda'r pobl iawn.

Eisoed, mae'r nifer o ddilynwyr sydd gan gyfrif y Coleg ar Twitter wedi cynyddu ers Awst 2013 i 2816 ac mae'n fwriad gan yr adran gyfathrebu nawr i roi mwy o ffocws ar Facebook a YouTube

**dd) Materion Cyhoeddus**

Byddwn yn mynd ati i drefnu un derbyniad / seminar bob blwyddyn wedi ei dargedu ar gynulleidfa wleidyddol a chreu polisi. Gan fod y

### **Strategaeth Gyfathrebu**

Coleg yn derbyn arian cyhoeddus, mae'n hanfodol bwysig ei fod yn dangos i'r gynulleidfa yma yn union beth mae'r Coleg yn ei gyflawni.

Byddwn yn cydweithio gyda chwmni allanol i drefnu hyn ac yn ei deilwra yn effeithiol at ba bynnag bwnc yr hoffem ei bwysleisio.

Byddwn hefyd yn parhau i fod yn rhan o grwp cyfathrebu Prifysgolion Cymru (Addysg Uwch Cymru gynt) sy'n lobio ar ran y sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

#### **e) Nwyddau**

Mae creu nwyddau hyrwyddo a chynnig pethau am ddim (freebies) yn ddull poblogaidd o ymgysylltu gyda darpar fyfyrwyr yn eu harddegau. Mae bagiau, beiros, sticeri ac yn y blaen yn gallu bod yn ffordd effeithiol o atgyfnerthu ein neges brand gyda'r garfan hon. Ond rhaid pwysleisio fod yn rhaid i'r nwyddau fod yn berthnasol – i'r gynulleidfa ac i'r Coleg.

#### **f) Cydweithio gyda swyddogion datblygu, darlithwyr a sefydliadau i hyrwyddo prosiectau**

Mae cymaint o brosiectau difyr ac amrywiol yn cael eu hariannu gan y Coleg, ac mae'n cynnig cyfle da i i hyrwyddo'r gwaith a'r canlyniadau, sydd yn atgyfnerthu ymwybyddiaeth o'r Coleg ar yr un pryd..

Wrth gydweithio yn agosach gyda'r swyddogion datblygu prosiectau, fe eir ati i ddatblygu amserlen hyrwyddo yn benodol i'r prosiectau fel fod modd i'n cynulleidfa amrywiol ni ddod i wybod mwy am waith y Coleg. Bydd yr amserlen hyrwyddo yma yn cynnwys amrywiol dulliau o hyrwyddo – o dudalennau ar ein gwefan a negeseuon Twitter, i ddatganiadau i'r Wasg a digwyddiadau – gan ddibynnu ar y math o brosiect a fydd dan sylw.



**PRIF AMCAN C:**

**GWELLA CYFATHREBU GYDA STAFF A MYFYRWYR YN Y SEFYDLIADAU**

Wedi trafodaethau gyda rhai o Swyddogion Cangen y Coleg sydd wedi eu lleoli mewn saith o brifysgolion, y teimlad cyffredinol a gafwyd oedd bod angen cydweithio i sicrhau gwell ymwybyddiaeth o waith a darpariaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y sefydliadau.

Mae'r cynllun gweithredu isod wedi ei dargedu at ddarlithwyr sy'n ran o gynllun staffio'r Coleg, staff datblygu a myfyrwyr.

**CYNLLUN GWEITHREDU**

**a) Creu e-lythyr misol i fyfyrwyr**

Wrth siarad â rhai o'r swyddogion cangen, fe ddaeth yn amlwg fod rhai ohonynt yn teimlo'r angen i godi ymwybyddiaeth o waith y Coleg ymysg myfyrwyr y prifysgolion. I helpu gyda hyn, byddwn yn creu templed o e-lythyr y gall y swyddogion cangen ei ddefnyddio i anfon newyddion perthnasol am y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r gangen i fyfyrwyr eu sefydliad nhw bob yn ail fis. Bydd yr adran gyfathrebu yn anfon dwy neu dair stori ganolog yn yr e-lythyr ac yna yn ei anfon at y Swyddogion Cangen fel eu bod nhw yn gallu ei lenwi gyda storiâu mwy lleol o'u sefydliadau.

**b) Creu e-lythyr misol / bob yn ail fis i aelodaeth staff a darlithwyr y cynllun staffio.**

Bydd y cylchlythyr hwn yn debyg iawn i'r cylchlythyr i fyfyrwyr ond yn fwy corfforaethol gyda hanes beth sydd wedi digwydd dros y misoedd diwethaf ynghyd â beth fydd yn digwydd dros yr wythnosau i ddod.

**c) Presenoldeb yn ffeiriau'r glas**

Byddwn yn cydweithio gyda'r swyddogion cangen i sicrhau eu bod yn sefydlu presenoldeb da yn ffeiriau glas y gwahanol sefydliadau. Mae ffeiriau'r glas yn cynnig cyfle da berswadio myfyrwyr newydd i ddod yn aelodau o'r Coleg yn ogystal ag yn gyfle i hyrwyddo'r defnydd o'r Porth.

**ch) Cynyddu'r defnydd y mae staff y prifysgolion yn ei wneud o adnoddau fel Y Porth.**

Cydweithio gyda swyddogion Gwasanaethau Gwybodaeth ac Academaidd y Coleg i ddarganfod ffyrdd o hwyluso profiad y defnyddiwr o adnoddau fel Y Porth.

**d) Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

Wrth gydweithio gyda'r Prif Diwtor Iaith, byddwn yn datblygu ymgyrch recriwtio i'r Dystysgrif Sgiliau Iaith. Bydd mwy i'w ddweud yma wedi i'r cyfarfod adolygu'r Dystysgrif ddiwydd maes o law.

**dd) Gwella presenoldeb gweledol ar y campysau**

Bwriedir ymgynghori gyda'r swyddogion cangen i weld beth fydd y posibiliadau o ran gwella presenoldeb gweledol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar y gwahanol gampysau.

**e) Hyrwyddo cynllun staffio academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

Bydd hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth am benodiadau newydd a chyhoeddi newyddion am waith a phrosiectau y maent yn gysylltiedig â nhw.

**f) Creu perthynas weithio dda gydag adrannau marchnata/hyrwyddo'r sefydliadau**

Trwy wneud hyn, nid yn unig byddwn yn llwyddo i gynyddu eu dealltwriaeth nhw o waith y Coleg a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn y gwahanol sefydliadau, ond byddwn hefyd yn sicrhau bod gwybodaeth gyfredol am y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael lle amlwg a theg yn neunydd marchnata'r sefydliadau eu hunain.

Byddwn yn sicrhau fod cyfarfodydd blynyddol yn cael eu cynnal rhyngddom a'r rheolwyr cyfathrebu/marchnata er mwyn rhannu syniadau a chyfathrebu unrhyw ddatblygiadau perthnasol.